PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 7

# *Mudiadau Cymdeithasol 1: Nodweddion a Mathau*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics · Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru | 2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig | 2.2.3: Ymddygiad pleidleisio. |
| Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth |
| **Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau** | **2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth**<br>**– Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol**<br>**– Aelodaeth a nodau mudiadau cymdeithasol;**<br>**– Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.**<br>**– Y mudiad i fenywod fel enghraifft o fudiadau cymdeithasol** |
| Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |

**Awduron yr adnodd:**

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Dr. John Glyn

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles

# GWYBODAETH GRAIDD

## Beth yw mudiadau cymdeithasol?

**Defnyddiwyd y term 'mudiad cymdeithasol' gyntaf gan Lorenz von Stein yn 1848 yn ei lyfr 'Socialist and Communist Movements Since the French Revolution'**

Mae mudiadau cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol mewn democratiaethau cyfoes. Dadleuir eu bod ychydig yn wahanol i ffyrdd mwy traddodiadol ac arferol o gyfranogi yn wleidyddol, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol a charfanau pwyso fel undebau llafur.

Yn hanesyddol, cysylltir mudiadau cymdeithasol gyda'r mudiad protest o blaid hawliau'r dosbarth gweithiol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn arbennig gyda'r bwrlwm o weithredu a'r **mudiadau hawliau** dyfodd o'r **1960au ymlaen**. Heddiw, mae mudiadau torfol ar draws y byd, o ymgyrchu dros hawliau LGBT, i'r Gwanwyn Arabaidd i'r mudiad dros leihau trais gyda gynnau yn yr UDA. Mae rhai mudiadau amlwg wedi bod **ar waith ers degawdau**, fel mudiad y menywod a'r mudiad amgylcheddol. Droeon eraill, gall mudiadau gael eu **creu'n annisgwyl ac yn gyflym** i roi mynegiant i fater o bwys i nifer fawr o bobl. Enghreifftiau yw'r mudiad i wrthwynebu rhyfel Irac yn 2003, neu ralïau i wrthwynebu ffioedd myfyrwyr yn 2011.

**Protest** yw: gweithred sy'n herio, gwrthsefyll, galw am weithredu ar ran awdurdodau, y rhai mewn grym, neu syniadau diwylliannol ac arferion unigolyn neu grŵp.

Mae diffyg consensws o ran sut i ddiffinio mudiadau cymdeithasol a'u prif nodweddion, a hynny'n rhannol oherwydd natur y mudiadau a'r modd maen nhw'n amrywio.

Diffiniad cryno fyddai deall mudiadau cymdeithasol fel **ymdrech ar y cyd gan bobl gyffredin am gyfnod o amser, gyda rhyw elfen o drefniadaeth i ddefnyddio dulliau ansefydliadol er mwyn creu newid mewn cymdeithas. Eu bwriad yw herio awdurdodau, y rhai mewn grym, neu syniadau ac arferion diwylliannol**.

Yn y gorffennol, roedd tueddiad i wahaniaethu rhwng 'mudiadau cymdeithasol' a 'mudiadau cymdeithasol newydd'. Cysylltwyd y cyntaf o'r rhain (e.e. mudiad llafur) gyda chanolbwyntio mwy ar les economaidd. Ystyrid bod y 'newydd' (e.e. mudiad heddwch, hawliau sifil a'r amgylchedd) yn adlewyrchu'r twf sylweddol yn nifer y mudiadau yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol gan roi mwy o sylw i faterion yn ymwneud â hawliau a hunaniaethau'r unigolyn. Yn yr adnodd hwn, trafodir mudiadau cymdeithasol mewn modd sy'n cyfuno'r ddau.

Ar begwn eithafol mudiadau cymdeithasol mae **mudiadau chwyldroadol**, sydd yn ceisio o leiaf i ddymchwel y llywodraeth neu'r wladwriaeth ac sydd efallai am geisio cael newid mwy sylfaenol yn nhrefniadaeth yr economi neu ym mhrif sefydliadau'r gymdeithas.

**PWYSIGRWYDD MUDIADAU CYMDEITHASOL MEWN GWLEIDYDDIAETH GYFOES**

'social movements, protest actions, and, more generally, political organizations unaligned with major political parties or trade unions have become a permanent component of Western democracies... forecasts that the wave of protest of the late 1960s would quickly subside, and that 'business as usual', as represented by interest-based politics, organized according to traditional political divisions, would return in its wake have largely been proved wrong.'

(Della Porta a Diani, 2006: 1-2)

Della Porta, D., Diani, M. (2006). *Social Movements: An Introduction* (Rhydychen: Blackwell).

## Beth yw prif nodweddion mudiadau cymdeithasol?

**Ideoleg a nodau**: I rai, dyma'r nodwedd sy'n arbennig i fudiadau cymdeithasol gan fod eu hamcanion yn **eang ac yn radical**. Yn aml, mudiadau cymdeithasol yw man cychwyn gwrthdaro gwleidyddol, nhw yw'r cyntaf i dynnu sylw at faterion neu syniadau gwleidyddol newydd. Fel arfer, nid ydynt yn fudiad un mater (*single-issue*) ond yn hytrach yn ystyried nifer o faterion sy'n gysylltiedig â **thema ehangach** fel y mudiad heddwch.

Cyfrannu at greu newid, yn arbennig drwy gynnig syniadau newydd yw nod mudiadau cymdeithasol. Yn aml iawn, **newid** sy'n digwydd yn yr **hir dymor** sy'n arwain at integreiddio syniadau i'r system wleidyddol yw amcan mudiadau cymdeithasol yn hytrach na newidiadau penodol, mwy byr dymor.

Yn bennaf oll, yr amcan yw **newid agweddau** ac **ymddygiad diwylliannol** ar ystod o faterion. Ar yr un pryd, gellir **gwireddu rhai amcanion mwy penodol** drwy annog newid yn y pleidiau ac mewn polisi cyhoeddus neu ddeddfwriaeth.

**Trefniadaeth**: Y duedd yn y gorffennol oedd meddwl am fudiadau cymdeithasol fel petaent yn hynod o anhrefnus. I'r gwrthwyneb, maen nhw yn aml wedi eu trefnu er bod hynny yn gallu bod yn **eithaf llac**. Mae **strwythurau anffurfiol** yn bwysig iawn, o ran **rhwydweithiau** anffurfiol o fudiadau, **cynghreiriau** ac unigolion. Nid yw'n dibynnu felly ar un grŵp er mwyn rhoi strwythur a chyfeiriad i ddatblygiad y mudiad. Mewn achosion eraill, mae grwpiau mwy ffurfiol sy'n cefnogi'r mudiad ehangach yn bodoli fel rhan ohono.

Dadleuir bod rhwydwaith o ymwneud rhwng grwpiau ac unigolion yn hollol ganolog i fudiad cymdeithasol ac na ellir diffinio un corff neu grŵp fel mudiad cymdeithasol.

Ymysg mudiadau'r 1960au roedd ymgais i osgoi strwythur biwrocrataidd o ran staff cyflogedig, arbenigwyr a hierarchiaeth. Bellach, ymysg yr holl amrywiaeth o fudiadau gall rhai fod â strwythur anffurfiol iawn tra bo gan eraill strwythur ffurfiol a hierarchaidd. Mae rhai'n dadlau taw'r cyrff sydd â threfniadaeth fwyaf biwrocrataidd sydd ymysg y mwyaf llwyddiannus sy'n debygol o bara hiraf gan olygu bod cyfyng-gyngor trefniadaeth yn wynebu grwpiau. Mae trefniadaeth mudiadau yn amrywio o rai sy'n dibynnu ar lawer o arian tra bod eraill yn bodoli ar waith gwirfoddolwyr di-dâl.

Mater arall o ran trefniadaeth mudiadau yw bod rhai wedi eu **trefnu ar draws ffiniau gwladwriaethau** a rhai yn **gweithredu yn fyd-eang**. Mae rhai mudiadau sy'n gweithredu yn fyd-eang wedi bodoli ers diwedd yr 19G. Mae'r tueddiad wedi tyfu yn sgil y modd mae'r byd yn gynyddol integredig a bod llawer o broblemau cyfoes yn trosgynnu ffiniau gwladwriaethau. Arweinia hyn felly at rwydwaith byd-eang o gyrff ac ymgyrchwyr sy'n rhanu syniadau ar draws y byd. Enghreifftiau da o hyn yw'r mudiad amgylcheddol a'r mudiad byd-eang dros gyfiawnder cymdeithasol.

**Dulliau gweithredu**: Gwneir defnydd helaeth o wahanol fathau o ddulliau gweithredu gan fudiadau cymdeithasol, gan gynnwys dulliau sefydliadol ac an-sefydliadol, ac mae nifer yn dadlau y disgwylir i fudiadau ddefnyddio o leiaf rywfaint o ddulliau an-sefydliadol i gael eu categoreiddio fel mudiad cymdeithasol. Trafodir hyn ymhellach yn Adnodd 8.

**Aelodaeth**: Disgwylir i aelodau mudiad rannu barn gyffredin a bod synnwyr o solidariaeth rhyngddynt yn creu hunaniaeth gyffredin. Fodd bynnag, er bod y pwyslais ar wrthdaro'r mudiad gyda syniadau eraill, mae'r ystod eang o syniadau all fodoli o fewn mudiad cymdeithasol yn golygu bod potensial hefyd am wrthdaro mewnol rhwng aelodau a grwpiau gwahanol sy'n rhan o'r mudiad.

Mae rhai'n pwysleisio gallu mudiadau cymdeithasol i ddod â gwahanol fathau o bobl ynghyd. O'r berspectif hwn, gall mudiadau ddod â phobl gyffredin ynghyd yn hytrach na'u bod yn cynnwys llawer o elîts. Fodd bynnag, mae eraill yn pwysleisio natur dosbarth canol y gefnogaeth i fudiadau cymdeithasol: dinasyddion addysgedig a graddedig sydd â'r gallu i ymwneud mewn rhwydweithiau.

O fewn mudiadau, mae gwahanol fathau o aelodau o rai sy'n hynod o weithgar, i eraill sy'n ymwneud drwy wirfoddoli cyfyngedig, rhai yn cyfrannu'n ariannol yn unig, tra bo rhai yn gweithio'n llawn-amser ac yn gyflogedig.

## Mudiadau cymdeithasol ar waith

### Mudiadau hawliau sifil UDA



Ar ddechrau tymor yr hydref 1957, gorchmynnodd Llywodraethwr Talaith Arkansas i'r Gwrachodlu Cenedlaethol rwystro myfyrwyr croenddu rhag cofrestru yn Central High School tref Little Rock, ysgol ar gyfer gwynion yn unig. Yn y llun mae Elizabeth Eckford, pymtheg oed, un o naw disgybl heriodd y gwaharddiad. Dyma ddigwyddiad ffurfiannol yn hanes y Mudiad Hawliau Sifil yn yr Unol Daleithiau a ymladdodd dros roi diwedd ar arwahanu hiliol (*racial segregation*) yn y De a dros sicrhau cyfartaledd cyfreithiol i'r boblogaeth groenddu. Ymysg y newid allweddol oedd Deddf Hawliau Sifil 1964 a'r Ddeddf Hawliau Pleidleisio 1965.

Rhai o brif nodweddion y mudiad oedd:

: Arweinwyr cryf fel Martin Luther King gyda'i bwyslais ar ddulliau di-drais fel ralïau mawr, gorymdeithio ac arestiadau yn hytrach nag anufudd-dod sifil;

: Ymysg eu prif dactegau oedd boicotio bysiau, meddiannu, protestiadau cymuned gyfan a rhannu syniadau drwy wrthdaro dramatig;

: Swyddogaeth yr eglwysi duon trefol yn cymell y gymuned ddu fel rhan o'r mudiad ar sail eu gwerthoedd (e.e. rhyddid a cyfiawnder) a'u rhwydweithiau cymdeithasol drwy rannu gwybodaeth am strategaethau a thactegau;

: Chwaraeodd y cyfryngau rhyngwladol ran bwysig wrth ddangos delweddau o brotestwyr di-drais yn wynebu creulondeb yr heddlu a hiliaeth.

**MUDIAD Y MENYWOD**

'Developing feminist consciousness was, and is, a central task of the radical women's movement... The radical women's movement of the 1970s took the meshing of politics and everyday life to a new height… women discussed their experiences and politics with the aim of rethinking their understanding of the world.' (Whittier, 2015: 114)

'A major change in the women's movement in the 1980s and 1990s has been an increase in attention to differences among women, particularly to issues of race and class…. growing awareness that women are not an undifferentiated group and reflected critically on the race and class homogeneity of the women's movement in the 1960s and 1970s.' (Whittier, 2015: 118).

Whittier, M. (2015). 'Sustaining Commitment among Radical Feminists', yn J. Goodwin a J. M. Jasper (goln) *The Social Movements Reader: Cases and Concepts* (Chichester: Wiley Blackwell).

## Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng mudiadau cymdeithasol a grwpiau pwyso

Yn ymarferol, er bod rhai gwahaniaethau pendant rhwng mudiadau cymdeithasol sy'n herio'r strwythur grym awdurdodol a charfanau pwyso sydd yn chwarae rhan fwy canolog o fewn y strwythur gwleidyddol sefydliadol, dydi'r gwahaniaethau rhwng y ddau ddim mor glir a chadarn â'r disgwyl.

Un esiampl sy'n tanlinellu'r her o wahaniaethu rhwng mudiadau cymdeithasol a charfanau bwyso oherwydd y tebygrwydd rhyngddynt yw bod rhai mudiadau cymdeithasol yn proffesiynoli o ran eu trefniadaeth drwy ddatblygu corff gweddol sefydlog, arweinwyr sy'n derbyn cyflog ac aelodaeth sy'n bennaf yn gyfranwyr ariannol. Enghraifft yw mudiad fel Greenpeace sy'n gorff mawr proffesiynol gyda staff a chyllideb fawr.

**Y GWAHANIAETH RHWNG CARFAN BWYSO A MUDIAD CYMDEITHASOL?**

'Although the distinction between social movements and other phenomena such as *political parties* and *interest groups* is not always sharp, movement scholars have generally regarded movements as *challengers* that are, at least in part, *outsiders* with regard to the established power structure. Political parties and interest groups, in contrast, are *insiders* with at least some degree of access to government authorities and other elites.' (Staggenborg, 2016: 5).

Staggenborg, S. (2016). *Social Movements* (Rhydychen: Oxford University Press).